Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2014**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Fay Buckle**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8041
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)

### 2 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru (09:00–10:00) (Tudalennau 1 - 3)

PAC(4)-04-14 (papur 1)

Yr Athro Jean White - Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru

### 3 Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-Coed a Gwynllŵg: Ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i argymhellion yr adroddiad (10:00–10:20) (Tudalennau 4 - 7)

PAC(4)-04-14 (papur 2)

Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Gwella Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol: Materion yn deillio o Archwilio Cyfrifon Cyngor Cymuned 2011-12 (Medi 2013)

### 4 Papurau i'w nodi (10:20) (Tudalennau 8 - 9)

**Cyllid Iechyd 2012-13 a Thu Hwnt: Llythyt gan ei fod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru (27 Ionawr 2014)** (Tudalennau 10 - 11)

### 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10:20)

Eitemau 6, 7 a 8

**6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Ystyried y dystiolaeth (10:20–10:25)**

**7 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru (10:25–10:40)**

**8 Ymgynghoriad ynghylch cod ymarfer archwilio newydd a datganiad ymarfer (10:40–11:00)** (Tudalennau 12 - 37)
PAC(4)-04-14 (papur 3)

Eitem 2

*Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*
Department for Health and Social Services
*Prif Swyddog Nyrsio – Cyfarwyddwr Nyrs GIG Cymru*
*Chief Nursing Officer – Nurse Director NHS Wales*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darren Millar AM
Chair Public Accounts Committee
National Assembly Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our ref: JW/

1 November 2013

Dear Mr Millar

**Hospital Catering and Patient Nutrition**

Further to your letter of the 11 October 2013 requesting additional information on Hospital Catering and Patient Nutrition, I am writing to provide Committee members with specific responses to the issues they have raised, as follows:

**Why has the Betsi Cadwaladr system for accessing the nutrition e-learning package, without the need for an email account, not been adopted by other Health Boards?**

I wrote to Nurse Directors at the beginning of June to remind them of my expectation that the Nutrition Care Pathway and the Food Record Charts are used as mainstream practice, with the e-learning package as its training resource. I informed them about the Betsi Cadwaladr University Local Health Board system for accessing the All Wales Food Record Chart e-learning tool and encouraged them to get their lead on e-learning to do likewise. It is my understanding that the lead in Betsi Cadwaladr Health Board has had contact with some other Health Boards to describe her approach.

**Participation in on-line training packages in the NHS.**

I recognise that the low level of compliance with completion of the e-learning nutrition package remains an issue and this continues to be a priority. NHS Wales Informatics Service (NWIS) and the Health Boards are considering further options for improving the completion rates. NWIS has been commissioned to produce a status report from each

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel : 029 2082 3469
Ffacs/Fax: 029 2082 5116
Jean.white@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Health Board, which will give us the opportunity to consider if an all-Wales solution would be appropriate.

Officials are also exploring alternative mechanisms with the company that developed the e-learning package. I will provide you with a further update in the New Year.

**Destination of Food Waste including details of the waste contracts between health boards and local authorities.**

A number of Health Boards are making arrangements with local authorities for the separate collection of food waste. For example, Cardiff and Vale University Health Board work in partnership with the City of Cardiff and Vale of Glamorgan County Councils for the separate collection and disposal of food waste. All community hospitals within Hywel Dda Local Health Board also have food waste collections by their respective local authorities. The NHS would like to work more closely with local authorities to improve food waste collections and closer collaboration should be encouraged. However, some local authorities are reluctant to collect food waste from large hospital sites.

More environmentally friendly forms of hospital food waste disposal are being considered. This could include the use of new technologies which will have to be evaluated to ensure they comply with statutory requirements. To date there has been no cost benefit analysis undertaken to assess the benefits of introducing more environmentally friendly forms of hospital waste disposal. This would be undertaken in respect of any new proposal.

From a nursing perspective the reasons for plate waste should be recorded on a patient's notes or food chart as their nutritional status is extremely important in their care and treatment. This information on their food and fluid intake would influence the plan of nursing care for the patient. There are no plans to collate consumption/waste on a meal by meal basis at ward level.

The Welsh Government is working with NHS Shared Services Partnership – Facilities Services (NWSSP-FS) through the EFPMS (Estates and Facilities Performance Management System) process to introduce new methods of measuring food waste to include plate waste other than just the untouched meals. The proposal would be to carry out a pilot study in one of the large acute hospitals and, if successful, to discuss the outcome with all other Health Boards/Trusts and to roll it out across NHS Wales.


Colleagues in NWSSP-FS have met WRAP Cymru to discuss food waste. As this is a local issue, where the individual Health Boards and Trust manage their own activities, it was felt the best way for WRAP to potentially help was to provide them with the contact details of the facilities/catering managers at each NHS organisation. WRAP Cymru have also been invited to give a presentation to the Welsh Health Environment Forum (WHEF) Waste Managers meeting in the New Year.

**Food Hygiene Rating Stickers**

When the statutory Food Hygiene Rating Wales scheme commences on 28 November, Health Boards will need to agree with their local authority food hygiene inspector where best to display their hygiene stickers at their hospitals.

Welsh Government officials are meeting Health Board Catering Managers to discuss the location for display of food hygiene rating stickers in hospitals and also food hygiene issues in hospitals more generally. We hope to be in a position to update you on developments in the New Year.

Yours sincerely



Professor Jean White
Chief Nursing Officer
Nurse Director NHS Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Darren Millar
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
darren.millar@wales.gov.uk

**Anfonwyd drwy e-bost yn unig**

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | AJB714/bd |
| Dyddiad | 27 Ionawr 2014 |
| Tudalennau | 1 o 4 |

Annwyl Darren

**Archwilio cyrff bach**

Ym mis Hydref 2012, fel yr Archwilydd Penodedig ar gyfer Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, cyhoeddais adroddiad er budd y cyhoedd ar weithgareddau amrywiol y Bwrdd. Nodais yn yr adroddiad fod ‘nifer y materion a nodwyd yn yr archwiliad presennol a graddau ac arwyddocâd rhai o'r materion hyn yn codi cwestiynau dilys am effeithiolrwydd archwiliadau blaenorol.’ Es ymlaen i egluro fy mod yn ystyried ‘pa welliannau y mae angen eu gwneud i'n methodoleg ar gyfer archwilio cyrff cyhoeddus bach a hyfforddi staff er mwyn sicrhau bod materion archwilio allweddol yn cael eu nodi a'u hadrodd cyn gynted â phosibl.’

Yn ei adroddiad dilynol i’r Bwrdd Draenio Mewnol, dywedodd y Pwyllgor:

‘Cawsom ein siomi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi methu â mynd i’r afael â‘r problemau ym Mwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg ynghynt. Fodd bynnag, nodwn fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod y methiannau hyn ac wedi ymrwymo i adolygu ei methodoleg archwilio er mwyn rhoi gwell sicrwydd y caiff materion archwilio allweddol eu hadrodd, ac yr eir i’r afael â hwy, cyn gynted â phosibl.’

Roedd yr adroddiad yr argymell ‘bod Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyda chanlyniadau’r adolygiad o’i methodoleg archwilio a’i chynigion ar sut y mae’n bwriadu gwneud gwelliannau yn y dyfodol’.

Rwy’n rhagweld y byddaf yn ymddangos gerbron y pwyllgor ar 4 Chwefror 2014 i gyflwyno’r diweddaraf am ein hymateb i argymhelliad yr adroddiad ar newid ein dull archwilio.

Nod y llythyr hwn yw briffio'r pwyllgor, cyn fy sesiwn cyflwyno tystiolaeth arfaethedig, ynglŷn â'r gwaith a gyflawnwyd gennym i adolygu a datblygu agweddau ar ein gwaith archwilio ariannol, yn enwedig yr agweddau sy'n berthnasol i archwiliadau llai.

**Cydnabyddiaeth well o'r risgiau sy'n berthnasol i archwiliadau bach**

O ystyried y symiau cymharol fach o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario gan gyrff bach, rydym wedi tueddu i feddwl yn y gorffennol bod y risg i gyrff o'r fath yn llai. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw hyn yn wir bob amser. Felly, rydym wedi gwneud y canlynol:

- adolygu ein trefniadau ar gyfer staffio archwiliadau endidau llai er mwyn sicrhau bod staff mwy profiadol yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol;
- cynnal adolygiad o ddull archwilio sampl o archwiliadau bach. Roedd ein cylch blynyddol o hyfforddiant gorfodol ar gyfer archwilwyr yn 2013 yn pwysleisio'r materion a nodwyd yn ein hadolygiad o archwiliadau bach, gan gynnwys cydnabod risgiau penodol ac ymateb yn briodol iddynt;
- cynnal seminar 'gwella ein perfformiad ym maes archwilio ariannol' ar gyfer Arweinwyr Ymgysylltu a Rheolwyr Archwilio ym mis Tachwedd 2013. Roedd hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau ein hadolygiadau mewnol o ansawdd archwiliadau er mwyn ceisio nodi meysydd lle gallwn wella ansawdd gwaith archwilio a'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r gwelliannau;
- adolygu a gwella ein polisi adolygu rheoli ansawdd er mwyn sicrhau bod o leiaf un archwiliad bach yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Rydym hefyd wedi adolygu ein dull o sgorio ansawdd archwiliadau er mwyn gwella'r broses o nodi archwiliadau sydd angen eu gwella.

**Adolygiadau allanol o ansawdd archwiliadau**

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ansawdd ein gwaith archwilio, rydym wedi comisiynu dau adolygiad allanol o'n trefniadau ansawdd dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Ym mis Chwefror 2013, cynhaliodd un o uwch swyddogion y Comisiwn Archwilio adolygiad o'n fframwaith ansawdd cyffredinol, ac rydym yn gweithredu'r argymhellion ar hyn o bryd.

- Rydym hefyd wedi penodi Cyfarwyddiaeth Sicrhau Ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ar gontract 3 blynedd i gynnal adolygiadau annibynnol o'n gwaith archwilio ariannol (yn debyg i'r adolygiadau a gynhaliwyd ganddynt o gwmnïau archwilio sy'n cynnal archwiliadau o dan y Ddeddf Cwmnïau). Adolygwyd ein trefniadau cyffredinol ym mis Medi 2013, a bydd archwiliadau unigol yn cael eu hadolygu tua dechrau 2014.

**Achredu staff archwilio ariannol**

Datblygiad arall sydd â'r nod o wella ansawdd gwaith archwilio yw'r cynllun achredu ar gyfer holl staff archwilio ariannol, a gyflwynir yn 2014. Bydd y cynllun yn gwella'r sicrwydd

bod gan aelodau staff y sgiliau technegol sydd eu hangen i gynnal archwiliadau ariannol o endidau sector cyhoeddus.

Er mwyn ennill a chadw achrediad i wneud gwaith archwilio ariannol, bydd yn ofynnol i staff:

- gwblhau isafswm o waith archwilio perthnasol bob blwyddyn;
- mynychu cyrsiau hyfforddi gorfodol penodol;
- darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth â chynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu cyrff proffesiynol.

**Cod Ymarfer Archwilio Newydd**

Roedd y rhan fwyaf o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad er budd y cyhoedd yn ymwneud â llywodraethu'r Bwrdd Draenio Mewnol.

Nid yw'r fersiwn cyfredol o God Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi'n benodol bod materion llywodraethu yn un o gyfrifoldebau archwilwyr (ac eithrio gwaith cyfyngedig yn ymwneud â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol). Fodd bynnag, er mwyn egluro'r rôl mewn materion llywodraethu, mae'r Cod diwygiedig drafft (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd) yn datgan 'bydd archwilwyr yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a lle bo'n briodol, ar faterion eraill er budd y cyhoedd.' Mae hyn yn debygol o gynnwys trosolwg o drefniadau llywodraethu ledled pob sefydliad ynghyd â themâu ac archwiliadau penodol seiliedig ar risg er mwyn darparu lefel gryfach o sicrwydd ynglŷn ag agweddau penodol ar lywodraethu.

**Model ffi ddiwygiedig**

Yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sylwais fod ein gwaith archwilio ar y Bwrdd Draenio Mewnol wedi'i gyfyngu 'oherwydd ei fod yn gorff bach, ac os ydych chi am ychwanegu mwy o amser at yr archwiliad, bydd yn costio hyd yn oed yn fwy.'

Mae Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn cyflwyno sylfaen pennu ffioedd sydd wedi ei diwygio mymryn ar gyfer ein holl waith archwilio. Ni all Swyddfa Archwilio Cymru wario mwy na'r gost lawn o gyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi yn berthnasol iddi. Mae costau llawn yn cynnwys costau uniongyrchol fel cyflog, cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr, ochr yn ochr â chyfran briodol o orbenion sefydliadol. Mewn ymateb i'r darpariaethau hyn, rydym wedi diwygio ein methodoleg dyrannu costau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion wrth gyflawni pob gweithgaredd archwilio neu arolygu ym mhob corff a archwilir ar gyfer pob blwyddyn archwilio, gan gynnwys ar gyfer cyrff bach. Bydd y diwygiadau angenrheidiol i'n methodoleg dyrannu costau, ynghyd â newidiadau yn sgil adolygiad o'n dull cynllunio archwiliadau sy'n seiliedig ar sero, yn sicrhau bod ffioedd yn ddigonol i allu gwneud gwaith archwilio i safon briodol mewn cyrff bach.

Hyderaf fod hyn yn sicrhau'r Pwyllgor ein bod wedi cymryd y materion o ddifrif ac wedi dysgu gwersi o ganlyniad. Mae gen i ymrwymiad o hyd, ar lefel broffesiynol a phersonol, i

wella ansawdd ein gwaith archwilio. Ni fyddwn yn llaesu dwylo, a byddwn yn ceisio gwneud gwaith archwilio o’r safon uchaf bob amser ar gyfer pobl Cymru.

Yn gywir



Anthony Barrett
Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2014** |
| Amser: | **09:00 – 10:19** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_28_01_2014&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar)**<br>**Mike Hedges**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor a chroesawodd Alun Ffred Jones yn sgîl cael ei ethol yn aelod o'r Pwyllgor ar 21 Ionawr.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.1 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (14 Ionawr 2014)

2.2 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan David Sissling (14 Ionawr 2013)

2.3 Gofal heb ei drefnu: Gwybodaeth gan Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda

2.4 Gofal heb ei drefnu: Llythyr gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda (22 Ionawr 2014)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cyllido Addysg Uwch: Sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

4.1 Cynhaliwyd sesiwn friffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar yr adroddiad ar *Gyllid Addysg Uwch* a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd 2013.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Cytunodd hefyd i ddychwelyd at y mater hwn unwaith y bydd rhagor o waith wedi cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni.

## 5 Cyllid Iechyd ar gyfer 2012-13 a thu hwnt: Trafod yr adroddiad

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Awgrymwyd nifer o fân welliannau a chytunwyd y byddai drafft arall yn cael ei ddosbarthu ar gyfer cytuno arno y tu allan i'r Pwyllgor.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AM
Chair of the Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Date: 27 January 2014
Our ref: HVT/2061/fgb


Dear Darren

At the meeting of the Public Accounts Committee on 16 January you considered the exchange of correspondence I had with the Permanent Secretary on the presentation of the Welsh Government's spending plans for health. The Committee requested a note setting out how the other parts of the UK present changes to budgets from one year to the next. We have examined practice in the other parts of the UK and offer the following observations. I should add that, in order to respond quickly to the Committee's request, we have not sought to confirm these observations with the relevant governments.

Firstly, the Northern Ireland Executive does not produce an annual draft budget comparable to that of the Welsh Government. It has set a budget for 2011 to 2015. Changes to spending plans are managed through quarterly monitoring and in-year estimates to manage over and underspends. A more detail explanation can be found at http://www.dfpni.gov.uk/main-estimates. We have therefore focused in more detail on the UK Government and Scottish Government.

We looked at the UK Government presentation in the Budget 2013 (March 2013). The UK Government uses the estimated outturn for 2012-13 as a baseline. The use of estimated outturn is likely to produce a more accurate picture of year-on-year changes. However, the UK Budget is set in March – close to the end of the financial year – when Departments will have a good idea of their likely outturn. The draft budget in Wales is published in October, when the final outturn would be considerably less certain.

The Scottish Government's draft budget for 2014-15 compares year-on-year changes using the draft budget figures from the previous year, updated to reflect changes agreed in the 2013 Budget Act (the Act setting out the spending plans for 2013-14). This baseline is equivalent to the Final Budget in Wales. The Scottish Government also provides a longer term comparison by including outturn data going back to 2008-09.

Direct Line: 029 2032 **0510** E-mail: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

In summary, the UK Government's approach of using estimated outturn as a baseline could produce the most accurate picture of year-on-year changes. However, the use of outturn estimates would be more difficult in Wales, due to timing. The Scottish approach is to use the equivalent of the Final Budget in Wales as a baseline. By using the Supplementary Budget, the draft budget in Wales provides a more up-to-date baseline for year-on-year comparison than is the case in Scotland.

Yours sincerely



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**AUDITOR GENERAL FOR WALES**

Eitem 8

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Tachwedd 2013



# Dogfen ymgynghori

Rhan 1: Cod Ymarfer Archwilio Drafft Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhan 2: Datganiad o Ymarfer Drafft Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd safbwyntiau a sylwadau ar ddwy ddogfen ar wahân, ond cysylltiedig:

- Cod Ymarfer Archwilio Drafft Archwilydd Cyffredinol Cymru; a
- Datganiad o Ymarfer Drafft sy'n disgrifio sut mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflawni swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu mewn perthynas â gwella llywodraeth leol.

Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi fersiwn derfynol o'r cod. Caiff fersiwn derfynol o'r datganiad ei pharatoi a'i darparu i Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo cyn ei chyhoeddi.

## Sut i ymateb

A fyddech cystal ag ymateb erbyn 31 Ionawr 2014.

Gellir anfon ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Ymgynghoriad ar y cod a'r datganiad
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Fel arall, gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i *info@wao.gov.uk*

Os ydych chi angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod neu ffoniwch 029 2032 0500.

## Cyhoeddi ymatebion – cyfrinachedd a diogelu data

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu ei datgelu yn unol â'r gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn bennaf, ond hefyd Ddeddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam eich bod yn teimlo y dylai'r wybodaeth honno gael ei chadw'n gyfrinachol.

Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn ond ni allwn ddarparu unrhyw sicrwydd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol o dan bob amgylchiadau. Ni ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymo'r Archwilydd Cyffredinol.

Bydd data personol yn cael ei brosesu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Os bydd data o'r fath yn dod o fewn cwmpas cais am wybodaeth gan unigolyn arall, bydd angen ystyried darpariaethau Deddfau 1998 a 2000 o dan yr amgylchiadau penodol. Er na ellir rhagfarnu unrhyw sefyllfa, mae'n debygol y bydd hyn yn golygu y bydd gwybodaeth am uwch swyddogion a ffigyrau cyhoeddus yn cael ei datgelu, ond y bydd enwau a chyfeiriadau aelodau'r cyhoedd yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

# Rhagair gan yr Archwilydd Cyffredinol



Mewn ymateb i'r gofynion cyfreithiol newydd, a gan gymryd i ystyriaeth y blaenoriaethau strategol ar gyfer ein hymagwedd tuag at archwilio cyhoeddus dros y tair blynedd nesaf, rwy'n cynnig ein bod ni'n ehangu a gwella'r set o egwyddorion sylfaenol i'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith ar fy rhan.

Mae fy nghynigion wedi eu gosod mewn dwy ddogfen, ac rydw i wedi dod â hwy ynghyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn:

- Cod Ymarfer Archwilio Drafft sy'n rhagnodi'r ffordd mae fy swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill yn cael eu cyflawni; a
- Drafft o Ddatganiad o Ymarfer sy'n disgrifio sut fydd fy swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu mewn perthynas â gwella llywodraeth leol yn cael eu cyflawni.

Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cynllunio er mwyn ategu'r Safonau Archwilio Rhyngwladol ac mae'r ddwy yn ymgorffori'r hyn sy'n ymddangos fel fy ymarfer proffesiynol gorau.

Rwy'n credu'n gryf bod y set o egwyddorion diwygiedig sy'n cael eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn ein galluogi ni i wneud y mwyaf o'r cyfraniad all archwilwyr wneud i atebolrwydd democrataidd; gan helpu pobl Cymru i wybod os yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau.

Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich safbwyntiau ar fy nghynigion.

Huw Vaughan Thomas

*Archwilydd Cyffredinol Cymru*

# Cynnwys


**Rhan 1: Cod Ymarfer Archwilio**

Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru 6

Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus, gan ddarparu darlun o'r sefyllfa a hyrwyddo gwelliant 7

Mae gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn seiliedig ar bum egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd a bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy 8

Y Cod Cyffredinol – mae hwn yn nodi sut y dylai archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau 9

Y Cod Penodol – mae hwn yn nodi ymhellach sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gyflawni gwaith archwilio 13

Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill 17

Atodlen 2: Archwilio cyrff bach 21

Atodiad: Defnyddio'r Cod hwn a'i gwmpas mewn perthynas â swyddogaethau 22

**Rhan 2: Datganiad o Ymarfer**

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwella llywodraeth leol 25

Rhaid i archwilwyr gyflawni gwaith archwilio, asesu ac arolygu mewn perthynas â gwella llywodraeth leol yn unol â'r egwyddorion a'r dull cyffredinol a nodir yng Nghod Ymarfer Archwilio'r Archwilydd Cyffredinol 26

# Part 1: Cod Ymarfer Archwilio



# Mae'r Cod hwn yn nodi sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru

1 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru. Mae Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013 a Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, ynghyd ag ystod o ddeddfau eraill, yn darparu sail statudol i waith yr Archwilydd Cyffredinol.

2 Yn ogystal, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cyflogi staff ac yn caffael adnoddau eraill fel y gall yr Archwilydd Cyffredinol gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

3 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn nodi y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi cod ymarfer archwilio sy'n nodi sut y dylai swyddogaethau archwilio'r Archwilydd Cyffredinol (a swyddogaethau penodol eraill) gael eu cyflawni, ac sy'n ymgorffori'r arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio hwn (y Cod hwn) yn cyflawni'r diben hwnnw ac yn disodli'r Cod a fu ar waith o 1 Ebrill 2010 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

4 Yn benodol, mae'r Cod hwn wedi'i gynllunio i ategu'r Safon Ryngwladol ar Archwilio a safonau a chanllawiau cydnabyddedig a ystyrir yn arfer proffesiynol gorau, megis y rhai a gyhoeddir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol a chyrff proffesiynol.

5 Gall y swyddogaethau y mae'r Cod hwn yn sôn amdanynt gael eu cyflawni gan yr Archwilydd Cyffredinol neu eu dirprwyo i eraill[1]. O ganlyniad, yn y Cod hwn, mae'r termau 'archwilydd' ac 'archwilwyr' yn cyfeirio at:

a yr Archwilydd Cyffredinol;

b gweithwyr cyflogedig Swyddfa Archwilio Cymru; ac

c unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Mae Atodlen 1 i'r Cod hwn yn nodi sut y dylid cyflawni swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff rhai o'r swyddogaethau hyn eu cynnwys fel y nodir yn Neddf 2013, a chaiff rhai eu cynnwys yn wirfoddol.

7 Mae'r Atodiad i'r Cod hwn yn crynhoi mewn siart llif sut y dylid defnyddio'r Cod hwn mewn perthynas â swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac yn amlinellu'r swyddogaethau y mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol iddynt ar sail statudol.

8 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canllawiau atodol ar sut i ddefnyddio'r Cod hwn, gan gynnwys trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth â'r Cod hwn.

9 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi datganiad o ymarfer sy'n disgrifio sut y mae'n bwriadu cyflawni swyddogaethau asesu, gwybodaeth ac archwilio cynlluniau'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â gwella llywodraeth leol, ynghyd â swyddogaethau adrodd a chydgysylltu cysylltiedig. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi datganiad o'r fath (gweler Rhan 2 o'r ymgynghoriad hwn). Nid yw'r Datganiad yn rhan o'r Cod hwn, ond mae wedi'i baratoi mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag ef.

Tudalen 17

1 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi cynllun er mwyn dirpwryo'n llwyr neu'n rhannol unrhyw rai o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i weithiwr cyflogedig Swyddfa Archwilio Cymru neu unigolyn sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru

# Diben archwilio'r sector cyhoeddus yw adrodd ar stiwardiaeth arian cyhoeddus, gan ddarparu darlun o'r sefyllfa a hyrwyddo gwelliant



10 Mewn democratiaeth, mae llywodraethau'n atebol i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig. Er mwyn hwyluso'r atebolrwydd hwn, rhaid i'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr gael gwybod am weithgareddau'r llywodraeth a'i defnydd o gronfeydd cyhoeddus; maent angen gwybodaeth sy'n amserol, yn ddiduedd, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn glir.

11 Mae archwilio gweithgareddau'r llywodraeth a'r defnydd o gronfeydd cyhoeddus gan y rhai sy'n gyfrifol am stiwardio'r cronfeydd hynny yn rhan annatod o atebolrwydd democrataidd. Mae archwilwyr allanol yn mynd ati'n annibynnol i archwilio a yw arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth a sicrhau bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano. Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn golygu mwy na mynegi barn ar y cyfrifon. Mae hefyd yn rhoi sylw i faterion megis rheoleidd-dra (a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymeradwy), priodoldeb (sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gyflawni) a gwerth am arian. Mae archwilwyr yn cyflawni'r gwaith hwn ar ran y cyhoedd ac er lles y cyhoedd. Nid yw cwestiynu teilyngdod polisïau'r llywodraeth yn rhan o swyddogaethau archwilwyr, ond gall archwilwyr archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi ac ystyried effeithiau rhoi'r polisi ar waith.

12 Mae archwilio'n ychwanegu gwerth at gymdeithas trwy:

a ddarparu sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu a stiwardio arian ac asedau cyhoeddus;

b rhoi syniad i ba raddau y mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth wrth ddiwallu anghenion pobl; a

c nodi a hyrwyddo ffyrdd i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

13 Fodd bynnag, ni ddylai archwilio allanol ddisodli cyfrifoldebau llywodraethau a chyrff cyhoeddus eraill, ac ni ddylai ddisodli'r angen i gyrff cyhoeddus gael cyngor cyfreithiol neu broffesiynol arall a rhoi trefniadau rheoli mewnol effeithiol ar waith, gan gynnwys trefniadau archwilio mewnol[2]. Y cyrff cyhoeddus eu hunain sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol[3].

14 Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwiliad allanol blynyddol y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y cronfeydd hynny y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arnynt yn flynyddol. Caiff elfennau o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG yng Nghymru ac i lywodraeth leol.

15 Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyflwyno rhaglen eang ond cymesur o waith archwilio allanol, yn unol â dyletswyddau a phwerau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r rhaglen gyffredinol yn cynnwys archwilio cyfrifon, archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, archwiliadau ac asesiadau gwella llywodraeth leol, ardystio hawliadau grant a chymorthdaliadau a hwyluso'r Fenter Twyll Genedlaethol.

16 Caiff arfer da ei nodi ym mhob rhan o'r gwaith archwilio a'i rannu trwy'r Gyfnewidfa Arfer Da (adnodd ar y we sydd ar gael am ddim i bawb) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau dysgu a rennir.

2 Dylai swyddogaeth archwilio mewnol corff cyhoeddus gyflawni gweithgareddau sicrwydd ac ymgynghori gyda'r nod o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y corff hwnnw.

3 I gael mwy o wybodaeth, gweler y *Datganiad o gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo/i* ar ein gwefan.

# Mae gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn seiliedig ar bum egwyddor – canolbwyntio ar y cyhoedd a bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy

17 Ochr yn ochr â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol penodol, mae gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn seiliedig ar bum egwyddor. Rhaid i archwilwyr gyflawni eu gwaith yn gyson yn unol â'r egwyddorion hyn.

## Canolbwyntio ar y cyhoedd

18 Cyflawnir y gwaith archwilio mewnol ar ran y cyhoedd ac er lles y cyhoedd. Mae cwmpas archwilio'r sector cyhoeddus yn ehangach nag ydyw yn y sector preifat ac mae'n rhan allweddol o'r broses o ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif. Mae gan y cyhoedd fudd cyfreithlon mewn gwaith archwilio, a dylid ymgysylltu â nhw fel rhan o'r broses. Rhaid i allbynnau gwaith archwilio fod yn hygyrch, yn amserol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn berthnasol i randdeiliaid.



## Bod yn annibynnol

19 Rhaid i bob gwaith archwilio fod yn annibynnol. Rhaid cyflawni'r gwaith mewn ffordd gywir, gwrthrychol a diduedd ac yn unol â safonau ac ystyriaethau moesegol perthnasol. Ni ddylai archwilwyr gael eu gorfodi gan unrhyw fudd wrth gyflawni eu gwaith, a dylent gyflwyno adroddiadau'n gyhoeddus heb dderbyn wyneb.

## Bod yn gymesur

20 Mae angen digon o le ar ddarparwyr gwasanaethau fel y gallant ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf a bod yn destun craffu i raddau digonol. Mae sicrhau'r cydbwysedd hwn yn rhan bwysig o waith yr archwilydd wrth bennu natur, cwmpas, maint a hyd gwaith archwilio. Rhaid i archwilwyr ymgymryd â thasgau penodol a chael y wybodaeth a'r esboniadau angenrheidiol er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau, ond nid oes disgwyl iddynt adolygu pob agwedd ar drefniadau, systemau neu gofnodion y cyrff a archwilir.

## Bod yn atebol

21 Mae archwilwyr y sector cyhoeddus yn cael eu hariannu gan arian cyhoeddus, a nhw sy'n gyfrifol am stiwardiaeth yr adnoddau a ddarperir iddynt. Rhaid iddynt gyflawni eu gwaith mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Rhaid i archwilwyr gyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd dryloyw, yn unol â'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywio eu gwaith, fel bod pob parti'n deall y rheswm wrth wraidd y gwaith archwilio.

## Bod yn gynaliadwy

22 Ystyr datblygu cynaliadwy yw diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rhaid rhoi sylw priodol i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol penderfyniadau strategol wrth gyflawni gwaith archwilio. Trwy eu gwaith, rhaid i archwilwyr roi sylw priodol i'r angen i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb a gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol.

### Cwestiwn 1

**Ydych chi'n cytuno â'r pum egwyddor a ddylai fod yn sail i'n gwaith archwilio, yn ein barn ni?**

# Y Cod Cyffredinol – mae hwn yn nodi sut y dylai archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau

23 Yn unol â'r pum egwyddor a amlinellir yn y Cod hwn, bydd y canlynol yn berthnasol.

24 Wrth gyflawni eu gwaith, rhaid i archwilwyr gydymffurfio â safonau archwilio a moesegol sydd ar waith ar y pryd ac a all gael eu diwygio o bryd i'w gilydd[4], sy'n berthnasol ym marn yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ogystal, rhaid i archwilwyr ystyried canllawiau a chyngor cysylltiedig os bydd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn eu bod yn berthnasol.

25 Rhaid i archwilwyr gyflawni eu gwaith yn unol ag unrhyw ganllawiau pellach a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan roi sylw i amcanion strategol yr Archwilydd Cyffredinol.

26 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi gwybod i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol[5] am unrhyw achos o drafod enillion troseddau (gwyngalchu arian) y bydd archwilwyr yn dod ar ei draws yn ystod eu gwaith. Felly, wrth gyflawni eu holl waith, rhaid i archwilwyr gadw meddwl agored i'r posibilrwydd bod unigolion yn trafod enillion troseddau a dylent gysylltu â Swyddog Adrodd Gwyngalchu Arian Swyddfa Archwilio Cymru os oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu amheuon. Rhaid i archwilwyr sicrhau hefyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd penodol eraill wrth gyflawni eu gwaith[6].

## Cynllunio

27 Rhaid i archwilwyr gynllunio eu gwaith a chadw cofnod o'r cynlluniau hynny. Rhaid iddynt:

a ddeall y ddeddfwriaeth archwilio berthnasol sy'n sail i'w gwaith a'r safonau archwilio proffesiynol;

b deall yn gyffredinol y deddfau, rheoliadau, polisïau, canllawiau a modelau llywodraethu sy'n berthnasol i'r cyrff y maent yn eu harchwilio;

c cyflawni gwaith cwmpasu cychwynnol, gan gynnwys cael barn rhanddeiliaid perthnasol, er mwyn llywio cyfeiriad y gwaith archwilio;

ch ystyried unrhyw ohebiaeth gan y cyhoedd neu bartïon eraill â buddiant, gan gynnwys datgeliadau gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir[7], ynglŷn â materion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

d cynnal dadansoddiad o'r materion a'r risgiau sy'n berthnasol i'r archwilio ac, ac eithrio gwaith archwilio barn (a lywodraethir gan safonau archwilio a moesegol), trefnu eu gwaith ar sail cyfres berthnasol a strwythuredig o gwestiynau;

dd cynllunio methodoleg gwaith maes i gasglu gwybodaeth er mwyn ateb unrhyw gwestiynau o'r fath yn gyson ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol fel sy'n briodol, ond heb eu cyfyngu gan ddisgwyliadau o unffurfiaeth;

e bod yn ymwybodol o'r ffaith y gall gwasanaethau cyhoeddus gael eu darparu trwy bob math o drefniadau cydweithredol, gan gynnwys partneriaethau a chontractau, ac ystyried sut i ddilyn arian cyhoeddus ar draws trefniadau o'r fath;

f ystyried y systemau ehangach mewn perthynas ag archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff cyhoeddus, ac:

i ystyried unrhyw brotocolau y mae'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno arnynt gyda

4 Gan gynnwys y Safon Ryngwladol ar Archwilio a safonau eraill a gydnabyddir yn rhyngwladol

5 O dan Reoliadau Gwyngalchu Arian 2007

6 Megis y rhai sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006

7 O dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn 'unigolyn rhagnodedig' sy'n gallu derbyn datgeliadau chwythu'r chwiban gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir mewn perthynas â chyflawni busnes cyhoeddus mewn ffordd briodol, gwerth am arian a thwyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus

chyrff adolygu allanol eraill ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig[8]; ac

ii os yn briodol, sefydlu trefniadau cydgysylltu effeithiol gyda chyrff adolygu allanol eraill er mwyn rhannu gwybodaeth, gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyffredinol, osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod llai o ofynion yn cael eu gosod ar gyrff a archwilir;

ff rhoi sylw priodol i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol penderfyniadau strategol, yr angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da[9], a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal[10];

g os yn bosibl, trafod y cynllun archwilio gyda chyrff a archwilir yn fuan yn y gwaith, gan gynnwys costau a ragwelir a sut y gallant gyfrannu er mwyn sicrhau archwiliad effeithlon, er enghraifft, trwy gynhyrchu'r papurau gwaith gofynnol mewn ffordd amserol ac effeithiol a thrwy ymateb yn llawn ac yn brydlon i geisiadau am wybodaeth; ac

h adolygu'r cynllun gydol yr archwiliad, a'i ddiweddaru os bydd angen.

## Gwaith maes

28 Wrth gyflawni gwaith maes, rhaid i archwilwyr:

a gyflawni eu gwaith yn broffesiynol yn unol â deddfwriaeth berthnasol, safonau archwilio a chanllawiau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol;

b cysylltu'n effeithiol ag unrhyw swyddogaethau archwilio mewnol perthnasol yn unol â safonau archwilio rhyngwladol;

c cael gafael ar wybodaeth angenrheidiol, gan ddefnyddio hawliau mynediad cyfreithiol perthnasol i ddarparu atebion i unrhyw gwestiynau gofynnol a chyflawni cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol;

ch ystyried barn, profiadau a phryderon defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill, fel sy'n briodol;

d gweithio'n effeithlon, gan ddibynnu ar waith a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol, ochr yn ochr â gweithgareddau hunanwerthuso cadarn, gwaith archwilio mewnol a gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol;

dd adolygu a yw cyrff a archwilir wedi rhoi sylw priodol i unrhyw faterion cysylltiedig a nodwyd yn flaenorol, gan gynnwys trwy waith archwilio mewnol, yr Archwilydd Cyffredinol a chyrff adolygu allanol eraill, ac a yw'r camau a argymhellwyd wedi'u cymryd;

e cael gwybodaeth mewn ffordd sy'n hwyluso meincnodi, cymharu canlyniadau perfformiad a nodi arferion da, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl;

f sicrhau bod yr holl ddata a dderbynnir neu a geir yn cael ei gadw'n ddiogel yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill o ran casglu a phrosesu gwybodaeth;

ff cyfathrebu'n rheolaidd â chyrff a archwilir a sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu trafod ar y lefel briodol ac mewn modd amserol, yn ôl yr angen; a

g dogfennu a rhannu gwybodaeth ag archwilwyr eraill am faterion sy'n codi o'u gwaith a allai gael dylanwad neu effaith ar waith archwilio arall a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu lywio rhaglenni archwilio i'r dyfodol.

8 Er enghraifft, mae Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arwyddo cytundeb ar gydweithredu

9 Fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Swyddfa Archwilio Cymru

10 Fel yr amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Swyddfa Archwilio Cymru

29 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau cyfreithiol eang mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a dogfennau sy'n bwysig er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau'n briodol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn mynd ati'n drylwyr i orfodi hawliau o'r fath gan fod atal hawliau mynediad yn llyffetheirio gallu archwilwyr i gyflawni eu gwaith yn iawn, gan gynyddu cost y gwaith hwnnw.

30 I osgoi unrhyw gamddealltwriaeth posibl pan yr ymddengys bod hawliau mynediad yn cael eu hatal gan unrhyw unigolyn, bydd yr archwilwyr yn esbonio'r hawliau perthnasol i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yr unigolyn yn parhau i geisio atal mynediad ar ôl hyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cymryd camau cyfreithiol er mwyn cael gafael ar y dogfennau perthnasol a bydd yn adennill unrhyw gostau cysylltiedig.

## Cyflwyno adroddiad

31 Ar ôl cwblhau gwaith maes, rhaid i archwilwyr:

- a ddod i gasgliadau ynglŷn â chanlyniadau'r gwaith maes yn seiliedig ar dystiolaeth ac ateb unrhyw gwestiynau yr oedd y gwaith yn rhoi sylw iddynt;
- b ystyried a yw eu casgliadau'n cyd-fynd â'r gwaith archwilio mewnol neu waith cyrff adolygu allanol eraill, fel sy'n briodol;
- c penderfynu ar y negeseuon allweddol a strwythur yr allbynnau a ddefnyddir i gyflwyno'r adroddiad;
- ch rhoi cyfle i gyrff archwilio a chyrff trydydd parti perthnasol wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y canfyddiadau, fel sy'n briodol;
- d gwneud argymhellion ar gyfer gwella, os yn berthnasol, sydd, ym marn yr archwilydd:
  - i yn ddefnyddiol, yn benodol, yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar fuddiannau'r cyhoedd;
  - ii yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy; ac
  - iii yn ystyried y costau gweithredu a ragwelir ac yn nodi lle mae'r rhain yn debygol o fod yn sylweddol;
- dd gynhyrchu allbynnau:
  - i sy'n cydymffurfio â gofynion adrodd statudol a phroffesiynol;
  - ii sy'n hygyrch, yn amserol, yn glir ac yn gryno;
  - iii sydd wedi'u hysgrifennu mewn iaith glir, gan osgoi jargon a thermau technegol os yn bosibl;
  - iv nad ydynt yn nodi enwau, teitlau swyddi neu wybodaeth arall am unigolion, oni bai bod angen gwneud hynny er mwyn darparu adroddiad priodol;
  - v sy'n agored ynglŷn â therfynau a chyfyngiadau'r gwaith;
  - vi sy'n nodi a mesur arbedion effeithlonrwydd, ynghyd â risgiau cyffredin sy'n wynebu cyrff cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt, pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol; ac
  - vii sy'n cynnwys neu'n cyfeirio at enghreifftiau o arfer da, fel sy'n briodol;

e annog a herio darparwyr gwasanaethau i wella, gan gynnwys trwy berchnogi canfyddiadau ac argymhellion yr archwiliad a rhoi sylw priodol i unrhyw enghreifftiau o arfer da;

f pwysleisio mai gwendidau neu risgiau a welwyd yn ystod y gwaith yn unig yw'r rhai a nodir a'i bod yn bosibl bod yna fwy o wendidau a risgiau; a

ff sicrhau y gellir gwneud y wybodaeth archwilio ar gael i ystod eang o randdeiliaid a buddiolwyr er mwyn cynyddu effaith bosibl a gwerth y gwaith.



## Gwaith dilynol

32 Ar ôl adrodd ar eu canfyddiadau, rhaid i archwilwyr:

a Lle bo'n briodol, wneud cais am ymateb gan bartïon perthnasol i'w canfyddiadau a'u hargymhellion a nodi a ydynt yn fodlon bod canfyddiadau ac argymhellion wedi'u hystyried yn iawn[11];

b monitro unrhyw gamau a gymerir mewn ymateb i'w hargymhellion;

c gwneud sylwadau, yn ôl yr angen a thrwy sianeli priodol, ar gynnydd a wnaed yn rhoi argymhellion ar waith ac ar argymhellion nad ydynt wedi'u rhoi ar waith yn iawn;

ch ystyried unrhyw ohebiaeth bellach a dderbynnir gan y cyhoedd neu bartïon eraill â buddiant, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau pellach gan unigolion a gyflogir gan gyrff a archwilir, ynglŷn â materion sy'n berthnasol i ganfyddiadau'r archwilio a'r argymhellion;

d ceisio nodi cyfleoedd ychwanegol i rannu gwybodaeth archwilio a'r hyn a ddysgwyd, gan gynnwys trwy sefydliadau, darparwyr a rhwydweithiau sy'n weithredol ym maes trosglwyddo gwybodaeth, fel sy'n briodol;

dd lle bo'n briodol ac yn ddefnyddiol, gwneud enghreifftiau astudiaethau achos o arfer da ac arloesedd ar gael i'w hychwanegu at gynnwys y Gyfnewidfa Arfer Da;

e lle bo'n briodol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol, cynnig sylwadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn sgil gwaith archwilio gyda llunwyr polisi a gweithgorau yn y sector cyhoeddus;

f cyflawni gwaith archwilio pellach, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol i fodloni gofynion statudol;

ff ymateb yn gadarnhaol i ganlyniadau gwaith monitro ansawdd, adolygiadau o'u gwaith gan yr Archwilydd Cyffredinol a chyrff adolygu eraill ac adborth gan randdeiliaid allanol, gan gynnwys yr adborth hwnnw gan gyrff a archwilir; a

g myfyrio ar eu gwaith a defnyddio'r dysgu i lywio rhaglenni gwaith archwilio i'r dyfodol a gwneud gwelliannau pellach i brosesau a methodolegau archwilio.

### Cwestiwn 2

**A ydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod Cyffredinol arfaethedig sy'n rhagnodi'r ffordd y dylai archwilwyr gynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol?**

11 Y corff a archwilir sy'n gwbl gyfrifol am weithredu'r argymhellion, ac am y mecanweithiau ar gyfer gwneud hynny

# Y Cod Penodol - mae hwn yn nodi ymhellach sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gyflawni gwaith archwilio

33 Yn ogystal â'r Cod Cyffredinol ac yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy, bydd y canlynol oll yn berthnasol oni phennir yn wahanol gan yr Archwilydd Cyffredinol (gweler paragraff 41).

## Archwilio cyfrifon ac archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian



34 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon cyrff gwasanaethau cyhoeddus y mae'n eu harchwilio. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar:

- a a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno'n briodol, yn cyflwyno'n deg neu'n rhoi darlun cywir a theg, fel y bo'n briodol, o faterion ariannol y corff;
- b a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu cymwys; a
- c rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol.

35 Bydd archwilwyr yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol cysylltiedig:

- a yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
- b yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill, yn cynnwys rheoleidd-dra trafodion mewn cyrff lle bo hyn yn ofynnol; ac
- c yn bodloni'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

36 Bydd yr archwilwyr, lle bo gofyn, yn adolygu ac yn llunio adroddiad ar ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.

37 Bydd archwilwyr yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a lle bo'n briodol, ar faterion eraill er budd y cyhoedd. I'r perwyl hwn, bydd archwilwyr yn:

- a adolygu datganiadau llywodraethu i gadarnhau nad yw'r rhain yn anghyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a gwybodaeth arall y maent yn ymwybodol ohoni;
- b cyflwyno adroddiad, fel y bo'n briodol, ar faterion nad ydynt o bosibl yn berthnasol i'r farn archwilio ond sydd er budd y cyhoedd, er enghraifft safle ariannol, safonau ymddygiad, ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:
  - i trefniadau llywodraethu a systemau rheolaeth fewnol;
  - ii systemau ariannol; a
  - iii threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll ac anghysonderau, llwgrwobrwyo a llygredigaeth.

38 Wrth weithio i fodloni'r Archwilydd Cyffredinol fod corff llywodraeth leol neu'r GIG wedi gwneud trefniadau cywir i ddefnyddio adnodd yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, bydd archwilwyr yn defnyddio meini prawf a nodir gan yr Archwilydd Cyffredinol. I gyrff llywodraeth leol, bydd archwilwyr hefyd yn dibynnu ar y ffynonellau sicrwydd canlynol:

- a canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol, ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ac ar faterion eraill er budd y cyhoedd;

b canlyniadau gwaith arall a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, ardystio ceisiadau a ffurflenni, ymarferion paru data a gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;

c canlyniadau gwaith archwilio mewnol a chyrff adolygu allanol eraill lle y bo'n briodol ac yn berthnasol i gyfrifoldebau'r archwilydd; ac

ch unrhyw waith arall sy'n mynd i'r afael â materion nad ydynt yn cael sylw gan yr uchod, ac y mae'r archwilydd yn ystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau.



39 Cyflwynir adroddiadau ar gynlluniau a chanlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol drwy ystod o allbynnau priodol. Gellir cyhoeddi'r allbynnau canlynol gan yr archwilydd yn ystod camau allweddol yn y broses archwilio:

a dogfen cynllunio archwiliad;

b adroddiadau neu femoranda llafar ac ysgrifenedig i unigolion priodol ar ganlyniadau agweddau penodol ar waith yr archwilydd neu faterion sy'n codi o agweddau penodol ar y cyfryw waith;

c adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi'r darganfyddiadau a chasgliadau'r archwilydd;

ch adroddiad archwilio gan gynnwys barn yr archwilydd ar y datganiadau ariannol;

d tystysgrif bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â'r gofynion statudol; ac

dd adroddiad sylweddol cysylltiedig os yw barn yr archwilydd yn amodol[12] neu os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno cyflwyno adroddiad ar unrhyw fater.

40 Gall yr archwilydd hefyd gyhoeddi allbynnau pellach yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Er nad yw'n derfynol, gall hyn gynnwys adroddiadau a lunnir er budd y cyhoedd, datganiadau rhesymau yn dilyn gwrthwynebiadau a wneir gan etholwyr awdurdod lleol, ymatebion i ohebiaeth, ac adborth ar sail eithriad lle bo unrhyw wybodaeth a adolygwyd yn dynodi methiannau sylweddol i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar ran y cyrff a archwiliwyd.

41 Bydd amgylchiadau lle y gall agweddau o'r Cod Penodol fod yn amhriodol i archwiliad o gyfrifon rhai cyrff, er enghraifft oherwydd y symiau cymharol fach o arian cyhoeddus a reolir gan y cyrff dan sylw. Wrth gynnal archwiliad o'r cyfryw gyrff, dylai archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Wrth gynnal archwiliad o gyrff bach sydd ag incwm blynyddol neu wariant blynyddol o dan derfyn ariannol a bennir gan yr Archwilydd Cyffredinol o bryd i'w gilydd, dylai archwilwyr gymhwyso Atodlen 2 y Cod hwn os cyfarwyddir hwy i wneud hynny gan yr Archwilydd Cyffredinol.

42 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau i archwilio pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol (a elwir ar y cyd yn werth am arian) mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus, yn unigol neu ar y cyd, yn defnyddio eu hadnoddau, ac i wneud argymhellion ar wella gwerth am arian. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal mathau eraill o archwiliadau ac astudiaethau.

43 O ran cyrff llywodraeth leol, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau i gynnal astudiaethau bob blwyddyn ariannol i'w alluogi i wneud argymhellion ar wella:

12 Yn hytrach na barn ddiamod, a gaiff ei mynegi pan fo'r archwilydd yn barnu bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, neu'n cael eu cyflwyno'n briodol neu'n deg (fel y bo'n briodol), ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol cymwys

a gwerth am arian wrth gyflawni swyddogaethau awdurdodau gwella Cymru[13];

b gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau gan gyrff llywodraeth leol eraill; a

c rheolaeth ariannol neu waith rheoli arall cyrff llywodraeth leol.

44 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswyddau hefyd i gynnal astudiaethau gwerth am arian ar effaith darpariaethau statudol a chyfarwyddiadau a chanllawiau Gweinidogion Cymru ar gyrff llywodraeth leol. Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal astudiaethau eraill hefyd mewn perthynas â darparu gwasanaethau gan gyrff llywodraeth leol, a gall gynnal astudiaethau gweinyddu budd-daliadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.



45 Gellir cynnal y swyddogaethau hyn, ar y cyd os oes angen, ar draws gwahanol fathau o gyrff, i archwilio gwariant cyhoeddus waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Gellir cyflwyno canlyniadau archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian (ac eithrio rhai a gynhelir mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol yn unig) i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

46 O ran ei swyddogaethau archwilio ac astudio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried, ymysg pethau eraill, y canlynol wrth benderfynu ar ba waith i'w gynnal:

a lefelau buddiannau a phryderon y cyhoedd[14];

b maint y materion a'r amgylchiadau a'r risgiau cysylltiedig;

c a yw'r gwaith yn amserol;

ch a ellir trosglwyddo'r gwersi a ddysgir; a

d gwerth posibl y gwaith o ran arbedion ariannol, gwella gwasanaethau a gwella trefniadau rheoli neu lywodraethu.

47 Ar gyfer unrhyw archwiliad neu astudiaeth arbennig, bydd archwilwyr yn defnyddio'r dull a nodir yn y Cod Cyffredinol i ddatblygu methodoleg gwaith maes sy'n eu galluogi i benderfynu i ba raddau y cyflawnwyd gwerth am arian neu y gellir ei wella, neu ar gyfer astudiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerth am arian, i gynnal dadansoddiadau addas i'r diben. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn ymestyn i asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, gan gynnwys unrhyw bartneriaethau darparu gwasanaeth a threfniadau cydweithio.

48 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn casglu ac yn ystyried safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig[15] wrth benderfynu pa archwiliadau ac astudiaethau i'w cynnal. Wrth benderfynu ar gwmpas unrhyw archwiliadau ac astudiaethau sy'n berthnasol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, ac wrth ddyfeisio gwaith maes ar gyfer prosiectau o'r fath, rhaid i archwilwyr gasglu safbwyntiau pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchodedig, er mwyn ystyried anghenion y grwpiau hyn.

## Ardystio ceisiadau a ffurflenni

49 Os oes corff perthnasol[16] yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ar gyfer ardystio:

a ceisiadau neu ffurflenni ar gyfer grantiau, cymorthdaliadau neu daliadau contract a dderbyniwyd gan lywodraethau ac awdurdodau cyhoeddus;

b ffurflenni cyfraniadau ardrethi annomestig; ac

13 Gelwir cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau Parc Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyda'i gilydd yn 'awdurdodau gwella' ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

14 Yn cynnwys yn arbennig farn Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol, lle y bo'n berthnasol

15 Fel y'i diffiniwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010

16 Diffinnir 'cyrff perthnasol' ym mharagraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

c unrhyw ffurflen arall y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau ar ei chyfer (un enghraifft gyfredol yw cyfraniadau pensiwn athrawon).

50 Rhaid i archwilwyr gynllunio'r gwaith o ardystio yn ôl gofynion y statud a rhoi sicrwydd rhesymol y caiff ceisiadau a ffurflenni grantiau eu datgan yn deg ac yn unol â thelerau ac amodau penodol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn annog cyrff sy'n talu grantiau i gytuno ar drefniadau ardystio priodol cyn iddynt wneud ardystio yn amod o'r grant neu'r adenillion.



51 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl nad ardystio fyddai'r dull mwyaf effeithiol o roi sicrwydd. Rhaid i archwilwyr hysbysu cyrff sy'n talu grantiau na fydd gofyn ardystio ac eithrio lle bydd cyfiawnhad clir dros wneud hynny, yn hytrach na'i fod yn arfer rheolaidd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyngor i gyrff sy'n talu grantiau sy'n gofyn am ardystio ar y dull mwyaf effeithiol o gael sicrwydd.

52 Lle y bydd cyrff sy'n talu grantiau wedi penderfynu bod angen ardystio, bydd archwilwyr yn defnyddio disgresiwn wrth gyflawni eu rhwymedigaethau ac yn gwneud dyfarniad ar drefniadau ardystio mewn achosion penodol, ar ôl ystyried:

a amgylchiadau penodol cynllun a'r symiau cysylltiedig;

b y lefel sicrwydd a geisir a ffynonellau eraill posibl o sicrwydd sydd ar gael;

c cadernid y meini prawf a gymhwysir; a

ch natur neu hyd a lled y gwaith angenrheidiol.

53 Wrth gynnal gwaith ardystio, rhaid i archwilwyr ddilyn gofynion y Cyfarwyddyd Ardystio a gytunwyd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r corff sy'n talu'r grant. Lle bynnag y bo'n ymarferol, rhaid i archwilwyr gyfuno eu gweithgarwch ardystio â'u harchwiliad o'r cyfrifon a gwaith archwilio ac astudio gwerth am arian.

54 Rhaid i archwilwyr ystyried hefyd a oes unrhyw ran o'r wybodaeth a adolygwyd wrth gynnal gwaith ardystio yn dynodi methiannau sylweddol i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar ran cyrff gwasanaethau cyhoeddus, a bydd yn rhoi adborth ar hyn ar sail eithriad.

## Cyflawni swyddogaethau archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

55 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau archwilio Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU i Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu wneud gwaith o'r fath yn un o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

56 Wrth arfer swyddogaethau archwilio o'r fath, rhaid i archwilwyr gynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy. Bydd archwilwyr yn defnyddio'r dull a ragnodir yn y Cod Cyffredinol ar gyfer cynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol.

### Cwestiwn 3

**A ydych chi'n cytuno â chynnwys y Cod Penodol sy'n nodi ymhellach sut y dylai archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau penodol, fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gyflawni gwaith archwilio?**

# Atodlen 1: Swyddogaethau penodol eraill



## Darparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol

57 Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol (y Pwyllgor) yn ystyried adroddiadau a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac yn ystyried pa mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ydynt wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Gall y Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiadau ei hun wedyn ar faterion sy'n codi o'r adroddiadau a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a gosod yr adroddiadau hynny gerbron y Cynulliad Cenedlaethol[17].

58 Gellir cyfeirio'r argymhellion a nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor tuag at unrhyw ran o'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys dwyn cyrff llywodraeth leol i gyfrif. Mae gofyn i Lywodraeth Cymru ymateb yn ffurfiol i adroddiadau'r Pwyllgor, i ddweud a yw'n derbyn yr argymhellion, ac os ydyw, sut y gweithredir yr argymhellion. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymatebion i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor i'r Llywodraeth ei hun, Cyrff a Noddwyd ganddi a chyrff y GIG.

59 Gall y Pwyllgor ofyn am gyngor neu gymorth yr Archwilydd Cyffredinol ar ba mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion. Wrth ddarparu cyngor neu gymorth o'r fath, rhaid i archwilwyr sicrhau na chaiff annibyniaeth a chywirdeb yr Archwilydd Cyffredinol eu cyfaddawdu, yn wir neu'n ymddangosiadol.

60 Lle y bydd adroddiadau'r Pwyllgor yn cynnwys argymhellion i gyrff a archwiliwyd, bydd archwilwyr yn dwyn yr argymhellion hynny i sylw swyddogion perthnasol ac aelodau nad ydynt yn swyddogion, er enghraifft mewn diweddariadau i bwyllgorau archwilio lleol neu'r hyn a fyddai'n cyfateb iddynt.

61 Lle y bydd y Pwyllgor yn penderfynu peidio â chyhoeddi ei adroddiad ei hun ar faterion a godwyd mewn adroddiad wedi'i baratoi gan yr Archwilydd Cyffredinol, gall ddal i wahodd Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd archwilwyr yn cynghori'r Pwyllgor yn annibynnol ar ba mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

62 Gall pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol hefyd ofyn am gyngor neu gymorth yr Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â pha mor ddigonol yw ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol neu eu hargymhellion eu hunain. Unwaith eto, wrth ddarparu cyngor o'r fath, rhaid i archwilwyr sicrhau na chaiff annibyniaeth a chywirdeb yr Archwilydd Cyffredinol eu cyfaddawdu, yn wir neu'n ymddangosiadol.

## Cyflawni swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru

63 Gall Gweinidogion Cymru, drwy gydsyniad yr Archwilydd Cyffredinol ac ar ôl ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru, wneud darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau goruchwylio cyrff cyhoeddus ar eu rhan, neu i drosglwyddo'r cyfryw swyddogaethau iddo/iddi. Golyga swyddogaethau goruchwylio swyddogaethau archwilio, arolygu, adolygu neu astudio trefniadau ariannol neu drefniadau rheoli eraill neu'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau.

17 Am ragor o wybodaeth, gweler *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

64 Wrth arfer swyddogaethau goruchwylio o'r fath, bydd archwilwyr yn cynnal eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy. Bydd archwilwyr yn defnyddio'r dull a ragnodir yn y Cod Cyffredinol ar gyfer cynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol.

65 Mae'r statud yn gwneud darpariaeth i'r Archwilydd Cyffredinol, os yw Gweinidogion Cymru'n ei gyfeirio i wneud hynny, baratoi adroddiad ar unrhyw swyddogaeth oruchwylio wedi'i throsglwyddo a gyflawnodd, a gosod yr adroddiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Unwaith eto, llunnir adroddiadau o'r fath yn unol â'r Cod Cyffredinol.



## Rhoi cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

66 Os yw'n ystyried hynny'n briodol, gall yr Archwilydd Cyffredinol[18] roi cyngor neu gymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru er mwyn i'r landlord cymdeithasol cofrestredig allu arfer ei swyddogaethau.

67 Wrth ystyried a yw darparu cyngor neu gymorth o'r fath yn briodol ac yn gymwys, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r angen i ddiogelu annibyniaeth yr archwiliad. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried buddioldeb gwneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio.

## Datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru

68 Gall yr Archwilydd Cyffredinol[19] ddatgelu gwybodaeth a gafwyd gan archwilwyr wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru. Er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i fod yn rheoleiddwyr effeithlon ac effeithiol, rhaid i archwilwyr ystyried pa mor berthnasol yw'r wybodaeth a gafwyd ganddynt wrth gynnal eu hastudiaethau mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru.

69 Os yw archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu â Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, dylai archwilwyr roi gwybod hefyd i'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig perthnasol am y wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio'i chywirdeb â hwy cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Cyfeirio materion sy'n gysylltiedig â nawdd cymdeithasol at yr Ysgrifennydd Gwladol

70 Gall yr Archwilydd Cyffredinol[20] gyfeirio unrhyw fater sy'n codi o archwiliad neu astudiaeth o lywodraeth leol at yr Ysgrifennydd Gwladol os yw'n ymddangos y gallai'r mater fod yn berthnasol i swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhaid i archwilwyr sy'n cyflawni gwaith llywodraeth leol ystyried perthnasedd gwybodaeth a gafwyd ganddynt yn sgil gwneud y gwaith hwnnw i swyddogaethau nawdd cymdeithasol yr Ysgrifennydd Gwladol.

18 O dan adran145D o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

19 O dan adran 145C(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r ffaith mai Gweinidogion Cymru yw rheoleiddwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

20 O dan adran 51 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004; mae'r ddarpariaeth hon yn helpu i alluogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i gael ei ddefnyddio er budd swyddogaethau nawdd cymdeithasol

71 Lle y bydd archwilwyr yn nodi gwybodaeth berthnasol, rhaid iddynt ei rhannu gyda Swyddog Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru i'w throsglwyddo i swyddogion perthnasol Llywodraeth y DU, yn amodol ar ystyriaethau diogelu data a hawliau dynol. Rhaid i archwilwyr gadw cofnodion o wybodaeth a rennir yn y ffordd hon. Ac eithrio lle byddai'n niweidio, neu'n debygol o niweidio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, dylai archwilwyr roi gwybod hefyd i'r cyrff llywodraeth leol perthnasol am y wybodaeth sydd i'w rhannu, gan wirio'i chywirdeb â hwy cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.



## Cymryd rhan â 'statws sylwedydd' ar weithgorau allanol

72 Yn aml, gofynnir i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu cynrychiolwyr i gyfrannu ac ychwanegu gwerth ar weithgorau allanol drwy roi persbectif unigryw a diduedd ar ba mor dda y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a sut y gellid eu gwella. Dim ond fel sylwedyddion y caiff archwilwyr sy'n cynrychioli'r Archwilydd Cyffredinol weithredu ar weithgorau. Ni fyddant yn aelodau o'r grŵp ei hun, ond yn hytrach yn ceisio cyfrannu cymaint ag y gallant at drafodaethau drwy dynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion archwilio perthnasol ac enghreifftiau o arfer da. Yn benodol, ni fyddant yn rhan o'r broses o benderfynu ar bolisi na gweithredu polisi sy'n codi o weithgareddau'r grŵp.

73 Rhaid i archwilwyr sicrhau nad yw eu cyfraniad fel sylwedyddion ar weithgorau yn llyffetheirio'r Archwilydd Cyffredinol mewn unrhyw ffordd wrth i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei swyddogaethau archwilio amrywiol.

## Cyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth am eu perfformiad

74 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gyfarwyddo cyrff llywodraeth leol i gyhoeddi gwybodaeth er mwyn hwyluso'r broses o gymharu gwerth am arian a pherfformiad.

75 Wrth roi cyfarwyddyd o'r fath, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn:

a nodi'r math(au) o gorff llywodraeth leol y mae'r cyfarwyddyd yn berthnasol iddynt;

b nodi'r flwyddyn neu'r blynyddoedd ariannol y mae'r wybodaeth i'w chyhoeddi ar ei chyfer neu ar eu cyfer;

c pennu neu ddisgrifio'r gweithgareddau y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt ac ar ba ffurf y dylid ei chyhoeddi;

ch anfon copi o'r cyfarwyddyd i bob corff llywodraeth leol y gosodwyd dyletswyddau arnynt i gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad erbyn 31 Rhagfyr fan bellaf o'r flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn ymwneud â hi; a

d chyhoeddi'r cyfarwyddyd mewn ffordd briodol i'w ddwyn i sylw'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr.

76 Cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â chymdeithasau cyrff llywodraeth leol perthnasol ac unrhyw bersonau eraill y mae'n eu hystyried yn addas. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi sylw i'r angen i wneud defnydd da o adnoddau cyhoeddus, yn cynnwys arbenigedd archwilio, a phwysigrwydd canolbwyntio ar y cyhoedd, yn enwedig gyda golwg ar ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â rheoli adnoddau cyhoeddus.

## Paru data

77 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymarferion paru data er mwyn atal a chanfod twyll.

78 Er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal Menter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r NFI yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi ceisiadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus.

79 Caiff yr NFI yng Nghymru ei chynnal ar y cyd ag ymarferion NFI yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y gellir paru data ar draws ffiniau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu a lleihau dyblygu ymdrechion, bydd yr Archwilydd Cyffredinol y parhau i gydweithio ag asiantaethau archwilio cenedlaethol eraill, yn cynnwys gwaith ar gyd-ddatblygu modiwlau paru data newydd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau megis staff ac arweiniad technegol.

80 Bydd y cyfranogwyr i gyd mewn ymarferion paru data fel yr NFI, a gynhelir gan, neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal eu gwaith yn unol â *Chod Ymarfer ar Baru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru.*

## Cwestiwn 4

**A ydych chi'n cytuno â chynnwys arfaethedig Atodlen 1 y Cod hwn, sy'n nodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau penodol eraill?**

# Atodlen 2: Archwilio cyrff bach

81 Bydd archwilwyr cyrff bach[21] yn cyflawni archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol a'r esboniad a gaiff eu darparu gan y corff er mwyn bodloni'r Archwilydd Cyffredinol fod:

a y cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol;

b ymarferion cywir wedi'u dilyn wrth grynhoi'r cyfrifon; a'r

c corff wedi gwneud trefniadau cywir ar gyfer sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.



82 Bydd yr archwilwyr yn cyflawni eu dyletswyddau, yn unol â chanllawiau gan yr Archwilydd Cyffredinol, drwy:

a adolygu cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol ar gyfer y gwaith o baratoi'r cyfrifon blynyddol;

b cynnal adolygiad lefel uchel dadansoddol o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a ddarperir i'r archwilydd; ac

c adolygu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau sy'n angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol a system ddigonol o reolaeth fewnol ac archwilio mewnol drwy gydol y flwyddyn ariannol.

83 Os oes angen tystiolaeth bellach ar sail yr adolygiad mewn perthynas ag unrhyw fater perthnasol ar yr archwilydd, rhaid cyflawni profion ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'i bryderon.

84 Pan fydd yr archwilydd wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a gwybodaeth ychwanegol ac esboniad wedi'u darparu, bydd yr archwilydd yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Ar sail eu hadolygiad, mae'r archwilwyr yn rhoi sicrwydd nad oes materion wedi dod i'w sylw sy'n peri pryder am:

a nad yw'r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn cyflwyno'n briodol neu'n cyflwyno materion ariannol y corff yn deg;

b nad yw'r cyfrifon a gwybodaeth arall a ddarperir yn unol â'r gofynion penodedig; a

c deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol heb eu bodloni.


**Cwestiwn 5**

**A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o archwilio cyrff bach a nodir yn Atodlen 2?**

21 Cyrff â naill ai incwm blynyddol neu wariant blynyddol sy'n is na therfyn ariannol a bennir gan yr Archwilydd Cyffredinol

# Atodiad: Defnyddio’r Cod hwn a’i gwmpas mewn perthynas â swyddogaethau

85 Mae’r siart llif isod yn crynhoi sut y dylid defnyddio’r Cod hwn wrth archwilio a swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol.




Tudalen 33

86 Mae darpariaethau'r Cod hwn yn berthnasol i'r swyddogaethau canlynol ar sail statudol:

a Archwilio cyfrifon neu ddatganiadau ariannol sydd i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan, neu yn rhinwedd deddf.

b Cynnal, cyflawni neu hyrwyddo astudiaethau neu archwiliadau gwerth am arian yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed gan, neu yn rhinwedd deddf.

c Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, neu swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Archwilydd Cyffredinol, o dan ddarpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Cymru 1998:

i Adran 145A(2) (cyflawni neu hyrwyddo astudiaethau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan gyrff penodol);

ii Adran 145C(8) (datgelu gwybodaeth a gafwyd wrth gynnal astudiaeth mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig i Weinidogion Cymru);

iii Adran 145D (rhoi cyngor a chymorth i landlord cymdeithasol cofrestredig);

iv Adran 146 (trosglwyddo swyddogaethau'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol i'r Archwilydd Cyffredinol); ac

v Adran 146A (trosglwyddo ac ati swyddogaethau goruchwylio Gweinidogion Cymru i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrff penodol).

ch Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

i Rhan 2 (archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru);

ii Adran 45 (cynnal neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gynnal, astudiaethau gweinyddu budd-daliadau); ac

iii Adran 51 (cyfeirio materion sy'n ymwneud â nawdd cymdeithasol i'r Ysgrifennydd Gwladol).

e Y swyddogaethau hynny sydd wedi'u cynnwys yn narpariaethau canlynol Atodlen 8 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

i Paragraff 17 (hawl i weld dogfennau); a

ii Pharagraff 20 (ardystio ceisiadau, ffurflenni ac ati ar gais corff).

# Rhan 2: Datganiad Ymarfer



# Mae’r Datganiad hwn yn disgrifio sut y dylai archwilwyr gyflawni swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu arbennig Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â gwella llywodraeth leol



87 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae’n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi datganiad ymarfer sy’n disgrifio’r ffordd y mae’n bwriadu cyflawni ei swyddogaethau archwilio ac asesu gwella. Dyma’r swyddogaethau:

a cynnal archwiliadau o wybodaeth a chynllunio mewn perthynas â gwella, i adolygu a yw awdurdodau gwella[22] wedi cyflawni eu dyletswyddau i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â chynllunio a pherfformiad mewn perthynas â gwella;

b cynnal asesiadau gwella, i benderfynu a yw awdurdodau gwella yn debygol o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau; a

c chydgysylltu a llunio adroddiadau ar waith archwilio ac asesu gwella.

88 Mae’r Datganiad Ymarfer hwn (y Datganiad hwn) yn cyflawni’r diben hwnnw ac mae wedi’i baratoi mewn ffordd sy’n cyd-fynd â’r egwyddorion a nodir yn y Mesur – sef y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau archwilio ac asesu:

a gan arfer cysondeb rhwng gwahanol awdurdodau gwella;

b yn gymesur er mwyn peidio â gosod baich afresymol ar awdurdodau gwella; a

c chyda golwg ar gynorthwyo awdurdodau gwella i gydymffurfio â’u dyletswyddau mewn perthynas â sicrhau gwelliant parhaus.

89 O dan amgylchiadau penodol, gall yr Archwilydd Cyffredinol benderfynu cynnal arolygon arbennig o gydymffurfiaeth awdurdodau gwella â’u dyletswyddau mewn perthynas â sicrhau gwelliant parhaus, neu gall Gweinidogion Cymru ofyn i’r Archwilydd Cyffredinol wneud hynny. Mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi ymestyn y Datganiad hwn yn wirfoddol er mwyn ei wneud yn berthnasol i’w waith arolygu arbennig hefyd.

90 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gyflawni’r swyddogaethau yn y Datganiad hwn, neu gellir eu dirprwyo i eraill[23]. O ganlyniad, yn y Datganiad hwn mae’r termau ‘archwilydd’ ac ‘archwilwyr’ gyda’i gilydd yn cyfeirio at:

a yr Archwilydd Cyffredinol;

b gweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru; ac

c unrhyw berson sy’n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru.

91 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canllawiau atodol ar y modd y caiff y Datganiad hwn ei gymhwyso, yn cynnwys trefniadau asesu cydymffurfiaeth â’r Datganiad.

22 Gelwir cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru gyda’i gilydd yn ‘awdurdodau gwella’ yn y Mesur

23 Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol baratoi cynllun i ddirprwyo’n llawn neu yn rhannol unrhyw rai o swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol i un o weithwyr Swyddfa Archwilio Cymru neu berson sy’n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru

# Rhaid i archwilwyr gyflawni gwaith archwilio, asesu ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol yn unol â’r egwyddorion a’r dull cyffredinol a nodir yng Nghod Ymarfer Archwilio’r Archwilydd Cyffredinol

92 Fel rhan o ddull cydgysylltiedig o gynnal gwaith archwilio ac yn unol ag egwyddorion a nodir yn y Mesur, wrth gyflawni swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol, rhaid i archwilwyr:

a gyflawni eu gwaith yn unol ag egwyddorion canolbwyntio ar y cyhoedd, bod yn annibynnol, yn gymesur, yn atebol ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer Archwilio’r Archwilydd Cyffredinol; a

b defnyddio’r dull a ragnodir yn adran Cod Cyffredinol y Cod Ymarfer Archwilio ar gyfer cynllunio a chyflawni eu gwaith, llunio adroddiadau arno a chymryd camau dilynol.



93 Ym mhob blwyddyn ariannol, mae gofyn i’r Archwilydd Cyffredinol gynhyrchu amserlen ar gyfer pob awdurdod gwella yn nodi dyddiadau ac amserau y dylai’r Archwilydd Cyffredinol, yn ei farn ef neu hi, a chyrff adolygu allanol perthnasol eraill, gyflawni eu swyddogaethau (mewn perthynas â’r awdurdod). Cyn cynhyrchu amserlenni o’r fath, bydd archwilwyr yn ymgynghori â’r cyrff adolygu allanol perthnasol. Wrth gynhyrchu amserlenni o’r fath, bydd archwilwyr yn ceisio sicrhau bod anghenion y cyrff adolygu allanol perthnasol o ran cyflawni eu swyddogaethau yn gywir yn cael eu hystyried, ac na osodir baich afresymol ar awdurdodau gwella. Yn dilyn hynny, mae’n rhaid i archwilwyr roi pob cam rhesymol ar waith i lynu at amserlenni o’r fath. Ni fydd yr amserlennu’n llyffetheirio neu’n cyfyngu ar yr Archwilydd Cyffredinol neu gyrff adolygu allanol eraill mewn unrhyw ffordd rhag ffurfio’u casgliadau a llunio adroddiad ar eu canfyddiadau.

94 Bob blwyddyn wrth gynnal asesiadau gwella, bydd archwilwyr yn asesu a yw awdurdodau gwella wedi rhoi sylw dyladwy i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol penderfyniadau strategol ac wedi ystyried y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol yn eu trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

95 Os yw’r Archwilydd Cyffredinol yn barnu bod hynny’n briodol yng ngoleuni archwiliad, asesiad neu arolygiad arbennig mewn perthynas â gwella, gall wneud argymhellion y dylai Gweinidogion Cymru roi cymorth i awdurdod gwella neu roi cyfarwyddyd iddo. Bydd archwilwyr yn amlinellu’r sail resymegol dros wneud argymhellion o’r fath yn eglur, yn seiliedig ar ganfyddiadau archwilio, asesu neu arolygu.

## Cwestiwn 6

**A ydych chi’n cytuno â’r dull arfaethedig o gyflawni swyddogaethau asesu, archwilio ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol a ddisgrifir yn y Datganiad Ymarfer drafft?**